# Mae hi nôl!

superwoman2022

Fel yn achos cynifer o ddigwyddiadau eraill, golygodd Covid nad oedd modd i ni gynnal Superwoman yn 2020 na 2021, ond ry'n ni wrth ein bodd i ail-gydio yn yr awenau eleni gydag arlwy o siaradwyr gwych.

**PRYD** Dydd Iau, 20 Hydref, 2022 5yh – 8.30 yh

**BLE** Canolfan yr Urdd, Canolfan y Mileniwm, 6b Bute Place, Caerdydd CF10 5AL

## Y Rhaglen

**O 5yh-6yh** Te prynhawn a chofrestru

Rhyngweithio dros baned o de a chacen. Prynu tocynnau raffl (Gwerthfawrogir unrhyw gynigion o wobrau) Cyfle i archebu gwin o Baytree Wine a pharatoi at y Nadolig drwy archebu un o'u hamperi gwin gwych!

**6yh – 7.30yh** Siaradwyr

**7.30-8:30yh** Diodydd a canapes



Efallai nad yw pawb yn ymwybodol bod gan yr Urdd, fudiad ieuenctid mwyaf Ewrop, ganolfan breswyl ym Mae Caerdydd wedi ei lleoli yng Nghanolfan y Mileniwm (yng nghefn yr adeilad yn hytrach nag yn y blaen!) Gan fod ein siaradwyr eleni yn cynnwys Prif Weithredwr yr Urdd, Sian Lewis, ry'n ni'n falch iawn i gynnal Superwoman 2022 yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd.

Mae'r ysbrydoledig Emma Jenkins a fu'n gyfrifol am arlwyo i gymaint o ddigwyddiadau Superwoman ers 2005 wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w busnes, EJ Catering yn sgil y pandemig, ond byddwn mewn dwylo diogel gydag arlwywyr yr Urdd, Just Perfect.

**PRIS**
**£35** – a bydd elw'r digwyddiad eleni'n mynd i gefnogi gwaith yr Urdd gyda ffoaduriaid o'r Wcráin ac Affganistan.




## Sian Lewis PRIF WEITHREDWR URDD GOBAITH CYMRU

Mae Urdd Gobaith Cymru'n dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed eleni. Yr Urdd yw mudiad ieuenctid mwya' Ewrop yn cyflogi 310 o staff ac yn trosi £15miliwn y flwyddyn. Ym mis Mawrth enillodd y mudiad Wobr Arbennig y Prif Weinidog yng Ngwobrau Blynyddol Dewi Sant yn gydnabyddiaeth o waith gwych y mudiad yn cefnogi pobol ifanc Cymru am ganrif, ac yn fwy diweddar, am gynnig lloches a chefnogaeth i bobl ifanc oedd yn ffoi o Affganistan ac o'r Wcráin.

Bydd Sian yn trafod Gwaith yr Urdd, ymateb y mudiad i heriau Covid a'r modd y mae'n rhaid i'r mudiad barhau i ddatblygu ac addasu er mwyn bod yn berthnasol i anghenion plant a phobl ifanc Cymru heddiw.
**@SIANJOBBINS**

## Mah Kakar

Bydd hi hefyd yn trafod gwaith arloesol yr Urdd gyda ffoaduriaid. Byddwn yn clywed hefyd wrth Mah Kakar, sy'n ffoadur o Affganistan ac a fu'n aros yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd am 5 mis.



## Joelle a Sarah Drummond

### CYD-SYLFAENWYR DROP BEAR BEER

Ffurfiwyd Drop Bear Beer, y brag-dŷ Cymreig hynod lwyddiannus sy'n cynhyrchu diodydd alcohol isel a di-alcohol, gan Joelle a Sarah yn 2019. Yn gwmni B Corp, sydd hefyd yn garbon niwtral, mae eu diodydd di-alcohol yn addas i feganiaid ac i'r rheiny sy'n osgoi glwten.

Bydd Joelle a Sarah'n sôn am eu cynnyrch arobryn, eu taith hyd yn hyn wrth ddatblygu'r busnes, pam ei bod hi'n bwysig i fod yn fusnes cyfrifol a chydwybodol a sut y cafodd y busnes ei enw. Bydd cyfle hefyd i brofi'r cwrw!

**@DROPBEARBEER**






## Dr Victoria (Lidi) Lidstone

### THE HAPPY HIVE

Ffurfiwyd yr Happy Hive gan y doctor-wenynwraig Dr Lidstone, a elwir yn Lidi. Yn cynhyrchu defnyddiau hyfryd ar gyfer y croen gan ddefnyddio cynhwysion naturiol o'r safon uchaf, gan gynnwys menyn shea organic, olew cnau coco, olew olewydd, ac wrth gwrs, cwŷr gwenyn wedi ei gynhyrchu gan ei gwenyn eu hunain. Wedi cychwyn y busnes wrth fwrdd y gegin yn 2017, datblygodd yn fenter gymdeithasol sy'n cefnogi prosiectau polineiddo a phrosiectau yn ymwneud â gwenyn yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. Yn ddiweddar enillodd y cwmni'r wobr gyntaf yng nghategori Iechyd a Llês gwobrau Cardiff Life.

Gynt yn Ymgynghorydd â chyfrifoldeb dros drawsnewid gofal lliniarol i oedolion ifanc yng Nghymru, gorfod i Lidi roi'r gorau i'w gwaith yn 2015 oherwydd afiechyd. Mae Lidi'n dioddef o gyflwr hynod anarferol sy'n effeithio ar ei chalon a'i chyhyrau ac felly wedi cyfnod hir o orffwys, roedd angen meddwl am ddechreuad newydd.

Bydd Lidi'n dweud wrthym sut y bu i wenyna achub ei phwyll a hithau wedi gorfod wynebu colli gyrfa a garai oedd yn golygu cymaint iddi. Roedd siarad gyda'r gwenyn, creu balmau ac eli yn fath o therapi a ddatblygodd dros amser yn fusnes. Mae yna ffordd bell i fynd eto, penderfyniadau caled i'w gwneud a chamau dewr i'w cymryd.

## ARCHEBU

Os hoffech archebu lle ar gyfer Superwoman 2022 llenwch y ffurflen amgaedig a'i dychwelyd. Gallwch dalu drwy yrru siec i:

**Superwoman,**
**c/o Thompson Darwin,**
**The Maltings,**
**East Tyndall Street,**
**Cardiff CF24 5EA**

Neu'n uniongyrchol i'n cyfrif banc:

**Superwoman**
**Lloyds Bank, Rhif didoli 30 67 64**
**Rhif Cyfrif 16490960**

Mae hwn bob amser yn achlysur poblogaidd tu hwnt ac eleni dim ond 100 o docynnau fydd ar gael sy'n 50 llai nag arfer. Archebwch eich lle'n gynnar er mwyn osgoi siom. Ni allwn sicrhau eich lle nes i ni dderbyn eich taliad yn llawn.


**CEFNOGWYD SUPERWOMAN GAN:**

Thompson Darwin Law

Hoffwn ddiolch o galon i gwmni Elevator, sydd wedi cefnogi elusennau Superwoman eto eleni drwy gynllunio'n pamffledi am ddim

elevator
www.elevatordesign.co.uk


# FFURFLEN ARCHEBU

## SUPERWOMAN 2022 – 20 HYDREF 2022

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw** | | | |
| **Teitl swydd** | | | |
| **Sefydliad** | | | |
| **Cyfeiriad ebost** | | | |
| **Hoffwn archebu** | | **lle** | |
| **Manylion** | **Enw** | **Cwmni** | **Cyfeiriad ebost** |